

Cyngor Partneriaeth Cymru

COVID-19: Symud o'r Cyfnod Ymateb i'r Cyfnod Adfer (Argyfyngau Sifil)

Cyflwyniad

1. Mae graddfa a chymhlethdod argyfwng COVID-19 yn fwy nag a welwyd erioed o'r blaen, ac mae'n parhau i gyflwyno heriau sylweddol ac unigryw.
2. Dros yr wythnosau diwethaf mae'r ffocws wedi troi, yn anochel, at lacio cyfyngiadau a'r Cyfnod Adfer, ond mae posibilrwydd gwirioneddol o hyd y gallem weld ail don mewn cyfraddau heintio, ac felly'n anffodus, rador o farwolaethau.
3. Mae bygythiad COVID-19 yn parhau ar raddfa fawr, ac mae hyn yn golygu bod dull gweithredu arferol Swyddfa'r Cabinet, sy'n seiliedig ar *gysyniad gweithrediadau* argyfyngau sifil o ran symud o Gyfnod Ymateb i Gyfnod Adfer yr argyfwng, yn fwy heriol ac yn llai amlwg. Gallai hyn olygu bod angen i'r ddau gam barhau ochr yn ochr am gyfnod mwy nag arfer.
4. Yn sgil yr hyn a nodir uchod, mae'r papur yn amlinellu cyfres o egwyddorion arweiniol i'w hystyried a'u mabwysiadu. Y nod yw darparu trefn lywodraethu dda a pharhaus, cyfathrebu ac ymgysylltu effeithiol, a chydweithio priodol ar faterion Argyfyngau Sifil wrth inni symud ymlaen.

Trosglwyddo o'r Grŵp Cydgysylltu Strategol i'r Grŵp Cydgysylltu Adfer

5. Cadeirydd y Grŵp Cydgysylltu Strategol (uwch-swyddog yr heddlu fel arfer) a Chadeirydd y Grŵp Cydgysylltu Adfer (uwch-swyddog o un o'r Awdurdodau Lleol a gynrychiolir yn ardal y Grwpiau hyn fel arfer) sy'n gyfrifol am benderfynu pryd y dylai'r trosglwyddo ddigwydd.
6. Gan gydnabod y bygythiad parhaus y mae COVID-19 yn ei gyflwyno, a'r posibilrwydd o gael ail don yn y gyfradd heintio a fyddai'n arwain at ailgychwyn y Grŵp Cydgysylltu Strategol, caiff y meini prawf canlynol eu cynnig wrth i'r Grŵp Cydgysylltu Strategol drosglwyddo materion i'r Grŵp Cydgysylltu Adfer:
 - Mae pob risg/mater sydd yn y categori COCH ar raddfa BRAG wedi cael ei liniaru a'i ostwng i OREN, ac mae aelod-asiantaethau'n fodlon bod modd i asiantaethau unigol ymdrin ag unrhyw risgiau OREN sy'n weddill.
 - Mae holl gamau gweithredu/cyfrifoldebau'r Grŵp Cydgysylltu Strategol naill ai wedi cael eu cwblhau neu wedi cael eu trafod â'r Grŵp Cydgysylltu Adfer ac wedi'u trosglwyddo iddo.
 - Mae Grŵp Cydgysylltu Adfer (ac unrhyw Is-grwpiau cefnogol sy'n ofynnol) wedi'i sefydlu.

- Mae Grŵp Rheoli Argyfwng yr Awdurdod Lleol yn gweithredu'n effeithiol, ac mae ganddo popeth angenrheidiol o ran:
 - Adnoddau
 - Cyfathrebu
- Mae sefydliadau unigol yn gweithredu'n effeithiol gyda digon o:
 - Adnoddau
 - Cyfathrebu
- Mae'r Awdurdod Lleol o fewn yr ardal yn derbyn Cadeirydd y Grŵp Cydgysylltu Adfer, gyda chytundeb pob un o'r Awdurdodau Lleol yn yr ardal honno.

Cylch Gorchwyl – Y Grŵp Cydgysylltu Adfer

Diben:

Goruchwyllo'n strategol, rhoi cyfarwyddyd a monitro cynnydd y gwaith adfer.

Yn yr un modd â Grwpiau Cydgysylltu Strategol, mae gan Grwpiau Cydgysylltu Adfer yr awdurdod i weithredu'n ôl yr angen, gan olygu bod modd cymryd camau cyflym ac effeithiol yn ôl amgylchiadau, heriau a chyfleoedd lleol.

Rôl:

- Bwydo i faterion adfer tra bod y Grŵp Cydgysylltu Strategol amlasiantaethol neu Dîm Rheoli Argyfyngau'r Cyngor dal yn weithredol
- Penderfynu ar fanylion cyffredinol y Strategaeth Adfer a'r Cynllun Gweithredu
- Sicrhau bod yr holl randdeiliaid perthnasol yn rhan o'r gwaith o ddatblygu a gweithredu'r strategaeth
- Sefydlu Is-grwpiau priodol, neu fanteisio ar strwythurau partneriaeth presennol (e.e. Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol), yn ôl y gofyn
- Ymdrin â materion eraill sydd y tu allan i gwmpas yr Is-grwpiau
- Llunio asesiad effaith o'r sefyllfa
- Asesu'r angen a threfnu cyfarfodydd cyhoeddus yn yr ardaloedd a effeithir
- Monitro materion ariannol a cheisio cael cyllid a mathau eraill o gymorth
- Penderfynu ar "gyflwr" terfynol y seilwaith a'r amgylchedd naturiol a effeithir
- Rhoi tawelwch meddwl i'r cyhoedd, gan geisio osgoi codi bwanod a phanig
- Ar y cyd â dull adfer strategol Llywodraeth Cymru, fel y nodir yn "Arwain Cymru allan o'r pandemig coronafeirws: Fframwaith ar gyfer adferiad", cytuno ar amserlen a meini prawf y strategaeth ymadael.

Cymorth Llywodraeth Cymru ar gyfer y Grwpiau Cydgysylltu Adfer

7. Bydd Llywodraeth Cymru yn cefnogi Grwpiau Cydgysylltu Adfer Cymru drwy:

- Sicrhau bod digon o gynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru ar gael i fynychu a chyfrannu'n llawn at gyfarfodydd a gwaith y Grŵp Cydgysylltu Adfer
- Darparu'r dystiolaeth ddiweddaraf i gefnogi penderfyniadau ar sail gwybodaeth
- Cynnal cyfarfodydd wythnosol (strategol) gyda Chadeiryddion Grwpiau Cydgysylltu Adfer, dan gadeiryddiaeth Reg Kilpatrick, Cyfarwyddwr Llywodraeth Leol yn Llywodraeth Cymru
- Sefydlu fforwm ar gyfer cyfarfodydd wythnosol (gweithredol) gyda Chadeiryddion Grwpiau Cydgysylltu Adfer dan gadeiryddiaeth Llywodraeth Cymru
- Galw Pwyllgor Argyfyngau Sifil Posibl Cymru ynghyd
- Sicrhau bod mesurau cymorth sydd yn eu lle i gefnogi'r Cyfnod Adfer yn cael eu darparu mewn modd amserol a theg, ac yn ddigon hyblyg i ymateb i amrywiaeth o anghenion yn y gymuned
- Annog dull gweithredu cyson o ran y gwaith Adfer ar draws Cymru, a therminoleg cyson i helpu cyfathrebu da gyda'r cyhoedd a'r holl randdeiliaid eraill
- Cydnabod ac atgyfnerthu dull gweithredu sy'n seiliedig ar y syniad mai'r ffordd orau o reoli'r cyfnod adfer yw o safbwynt datblygu cymunedol. Gwelir fod hyn fwyaf effeithiol pan caiff ei gynnal ar lefel leol, gyda'r gymuned a effeithir yn cymryd rhan weithredol, gan ddibynnu'n fawr ar allu ac arbenigedd lleol. Mae Adfer yn fwy na mater ar gyfer yr asiantaethau statudol - bydd y sector preifat, y sector gwirfoddol a'r gymuned ehangach yn chwarae rhan hanfodol
- Oherwydd nad ydym wedi gweld unrhyw beth fel y pandemig hwn o'r blaen, dull gweithredu cyson ar draws Cymru yw'r ffordd orau o fynd i'r afael â rhai materion (i'w diffinio)
- Nodi'n glir drefniadau rheoli'r cyfnod adfer mewn dogfen Cysyniad Gweithrediadau'r Cyfnod Adfer

Cadeirydd ac Ysgrifenyddiaeth:

8. Dan gadeiryddiaeth Prif Weithredwr, neu Ddirprwy enwebedig o un o'r Awdurdodau Lleol a gaiff eu cynrychioli yn ardal y Grŵp Cydgysylltu Strategol/Grŵp Cydgysylltu Adfer, a fydd yn penodi Ysgrifenyddiaeth i wneud cofnodion o holl gyfarfodydd y Grŵp Cydgysylltu Adfer, bwrw ymlaen â'r camau gweithredu a chydlynu cofnod meistr o holl gyfarfodydd yr Is-grwpiau.

Aelodaeth:

Mae'r aelodaeth yn hyblyg ac yn debygol o newid ar wahanol gamau'r broses:

- Cadeirydd Awdurdod Lleol, cymorth gweinyddol a chynrychiolwyr cyfarwyddiaeth priodol

- Awdurdodau Cyfagos
- Yr Heddlu
- Y Gwasanaeth Tân ac Achub
- Cyfoeth Naturiol Cymru
- Yr Asiantaeth Safonau Bwyd
- Cynrychiolydd/Cynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru
- Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Byrddau Iechyd Lleol
- Cynrychiolydd Gofal Cymdeithasol Awdurdodau Lleol a'r Sector Preifat
- Yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion
- Cwmnïau Cyfleustodau
- Darparwyr Trafnidiaeth
- Y Fyddin
- Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch
- Cynrychiolydd o Sefydliadau Gwirfoddol

Mae'r papurau a'r gefnogaeth sy'n cael eu cynnig wedi cael eu datblygu gan ystyried:

- Dull strategol Llywodraeth Cymru, fel y nodir yn [Arwain Cymru allan o'r pandemig coronafeirws: fframwaith ar gyfer adferiad](#)
- Yr Egwyddorion Adfer a ddarperir yn y canllawiau Argyfwng, Ymateb ac Adfer
- Y ffaith nad ydym wedi gweld pandemig tebyg o'r blaen a'r posibilrwydd o gael ail don mewn cyfraddau heintio, yn gofyn am ddychwelyd i'r cam Adfer
- Ymgysylltiad Llywodraeth Cymru gyda Chadeiryddion y Grŵp Cydgysylltu Strategol a'r Grwpiau Cydgysylltu Adfer hyd yma.